# Gweithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer

Gweithdrefn 09: 2025 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 1 Awst 2025

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 08 Gorffennaf 2025 | 2023 Fersiwn 1.0 | Rhaglenni ychwanegol, eglurhad o ofynion cyfarfod ymchwilio ffurfiol a hyd a lled y gwahanol gyfnodau o ymgymryd â nhw. Diweddariad teitlau a Chanllawiau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol |
| 12 Ebrill 2023 | 2019 Fersiwn 1.3 | Wedi'i ddiweddaru i grybwyll partneriaid perthnasol a chyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol |
| 1 Chwefror 2021 | 2019 Fersiwn 1.2 | Diwygiadau bach i'r geiriad, a chynnwys terfynau amser ar gyfer unrhyw ymchwiliadau i addasrwydd neu ffitrwydd. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Y Gofrestrfa: Ansawdd a Safonau. | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 08 Gorffennaf 2025. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau’r Coleg yn y drefn honno, fel y bo’n briodol.

# Gweithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer

## Rhagarweiniad

1. Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud ag unigolion sydd ar hyn o bryd (neu a oedd yn ystod y cyfnod dan sylw) yn ymgymryd â rhaglenni proffesiynol. Rhaglenni proffesiynol yw'r rhai a all, trwy gynllun, arwain at yrfa mewn meysydd gan gynnwys, ymhlith eraill, y rhai sydd wedi'u halinio o fewn y Coleg Meddygaeth ac Iechyd a'r rhai o fewn Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni o fewn yr Ysgol Busnes, Ysgol y Gyfraith, yr Ysgol Addysg, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, y maes Plismona, yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon, ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Weithdrefn hon yn cynnwys digwyddiadau yn y Brifysgol ac mewn mannau eraill, gan gynnwys tra ar leoliadau.

2. Caiff y weithdrefn hon ei llywio gan y canllawiau, y rheoliadau a’r codau ymarfer proffesiynol perthnasol. Dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt ym mhob cam o'r weithdrefn hon a rhaid cynnal cyfrinachedd yn briodol drwyddi draw. Rhaid cadw cofnodion digonol o unrhyw gyfarfodydd, trafodaethau, canfyddiadau neu ganlyniadau. Rhaid ystyried addasiadau rhesymol fesul achos a gall staff a myfyrwyr ymgynghori â staff yn y Gwasanaeth Llesiant a Chynwysoldeb i gael cyngor.

3. Mae gan y Brifysgol, ar y cyd â'i phartneriaid allanol, gyfrifoldeb i sicrhau bod myfyrwyr yn addas i'r rhaglen broffesiynol y maent yn ei hastudio ac i’r proffesiynau y gallant fod yn ymuno â nhw wedi graddio. Gall ymchwiliad i addasrwydd neu ffitrwydd dan y Weithdrefn hon ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod astudio myfyriwr yn y Brifysgol, a gellir hefyd ddechrau neu barhau ag ymchwiliad os nad yw'r unigolyn bellach yn fyfyriwr cyn belled â bod yr honiad(au) yn berthnasol i'w cyfnod fel myfyriwr ar raglen berthnasol ym Mhrifysgol Bangor sy'n dod o dan y Weithdrefn hon. Pan fo honiad yn cwmpasu cofrestriad mewn un neu ragor o sefydliadau, gall pob un ohonynt ystyried yr honiadau naill ai ar wahân neu ar y cyd a gall y naill neu'r llall ymchwilio'n ffurfiol os ystyrir bod hynny’n briodol. Fel arfer, bydd penderfyniad ynghylch a fydd achos yn cael ei ddatrys yn anffurfiol, neu yn cael ei gyfeirio i'r cam ymchwilio, yn cael ei wneud o fewn 10 diwrnod gwaith i hysbysu'r myfyriwr am y pryderon.

4. Nid yw'r Weithdrefn hon yn cynnwys rhai sy’n ymgeisio am le ar y rhaglenni hyn, oherwydd caiff eu haddasrwydd i’r rhaglen ei hystyried dan y prosesau derbyniadau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r brifysgol yn disgwyl i ymgeiswyr hysbysu staff derbyniadau am unrhyw bryder neu newid perthnasol yn eu hamgylchiadau, megis os ydynt o dan unrhyw fath o ymchwiliad cyn iddynt gofrestru ym Mhrifysgol Bangor. Ar

ôl cofrestru, rhaid rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith am newidiadau o'r fath mewn amgylchiadau.

5. Pan fo'r Weithdrefn hon yn pennu dyletswyddau'n benodol i Ysgolion, Penaethiaid Ysgolion, Swyddogion Ysgolion neu Bwyllgorau Ysgolion, gall y dyletswyddau hynny gael eu cyflawni ar lefel Coleg gan Ddirprwy Is-ganghellor (neu enwebai), Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, ac fel bo'n briodol.

6. Gall fod nifer o resymau pam na all myfyriwr fod yn addas i ymarfer; mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

   i. Problemau o ran gallu a/neu berfformiad y tu hwnt i bryderon am gymhwysedd y myfyriwr a fyddai fel arfer yn arwain at fethu’r lleoliad yn hytrach nag at atgyfeiriad Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer;
   ii. Tramgwydd troseddol, gan gynnwys unrhyw rybudd neu gerydd, neu ymchwiliad sydd ar y gweill gan yr heddlu neu gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu statudol perthnasol;
   iii. Methiant i hysbysu'r Brifysgol am unrhyw bryderon diogelu, ymchwiliadau troseddol, neu dramgwyddau gan gynnwys rhybuddion neu geryddon;
   iv. Cam-drin neu frawychu cyd-fyfyrwyr, cleifion, cleientiaid, cydweithwyr, aelodau staff neu aelodau o'r cyhoedd yn gorfforol neu'n eiriol;
   v. Methiant i wella ymddygiad sydd wedi bod yn ddarostyngedig i gamau disgyblu dan reoliadau’r Brifysgol.
   vi. Ymddygiad amhroffesiynol dro ar ôl tro;
   vii. Ffugio dogfennau, cofnodion clinigol, personol neu academaidd, data neu ddeunydd ymchwil;
   viii. Cyhoeddi, yn cynnwys trwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ddeunydd amhriodol, yn cynnwys datganiadau a delweddau;
   ix. Problem sy'n gysylltiedig â chyffuriau/alcohol sydd naill ai’n cael ei amau neu wedi ei chadarnhau;
   x. Bod wedi eu gwahardd neu eu diarddel rhag gweithio gyda grŵp penodol o bobl (gweler paragraff 8);
   xi. Bod yn destun ymchwiliad dan reoliad, cod neu weithdrefn arall o eiddo'r Brifysgol, megis y Weithdrefn Uniondeb Academaidd, y Rheoliad ynghylch Disgyblu Myfyrwyr neu'r Cod Ymddygiad i Fyfyrwyr;
   xii. Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sydd, er gwaethaf addasiadau rhesymol neu driniaeth, yn effeithio ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer;
   xiii. Torri cyfrinachedd;
   xiv. Dwyn anfri ar y Brifysgol neu'r proffesiwn.
   xv. Afreoleidd-dra ariannol a/neu weithgarwch twyllodrus.

Y baich prawf i'w ddefnyddio o ran y Weithdrefn hon yw bod y Brifysgol yn fodlon bod y digwyddiad yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Rhaid i'r holl brosesau a gynhelir o dan y weithdrefn hon fod yn anwahaniaethol ac yn ddiduedd, a rhaid sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd drwy bob cam, gan rannu’r

wybodaeth dim ond â'r rhai sydd â'r hawl i'w gweld, ac yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Rhaid i unrhyw honiadau a wneir o dan y Weithdrefn hon fod yn ffeithiol a bod wedi eu cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol. Rhaid datgan unrhyw wrthdaro buddiannau i'r Pennaeth Ysgol perthnasol neu i'r Gofrestrfa: Ansawdd a Safonau fel bo'n briodol cyn i aelodau staff gymryd unrhyw ran yn y prosesau sy'n rhan o'r Weithdrefn hon.

7. Caiff prosesau eu cynnal yn unol â'r Weithdrefn hon at y dibenion canlynol:

   - Cynnal safonau proffesiynol a buddiannau pob unigolyn, gan gynnwys, ymysg eraill, partneriaid perthnasol a chyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol megis y Coleg Plismona, Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW), Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP), y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Genedlaethol, y Byrddau Iechyd sy'n bartneriaid, GIG Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC), y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC), y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA), Sefydliad y Bancwyr Siartredig (CBI) a chyrff eraill ym meysydd Busnes, y Gyfraith, Bancio a'r sector Ariannol;
   - Amddiffyn plant (pobl dan 18 oed), a disgyblion ysgol sydd wedi cyrraedd 18 oed;
   - Amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg, a gofalwyr;
   - Amddiffyn y cyhoedd;
   - Amddiffyn y Brifysgol;
   - Sicrhau bod myfyrwyr sy'n dechrau ar eu rhaglen, ac/neu'n symud ymlaen o fewn eu rhaglen, o gymeriad da.
   - Sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw god proffesiynol perthnasol.

8. Er mwyn sicrhau addasrwydd myfyrwyr, mae gan y Brifysgol weithdrefnau a threfniadau penodol wrth dderbyn myfyrwyr i'r graddau a gwmpesir gan y Weithdrefn hon, ac yn ystod cyfnod y myfyriwr yn y Brifysgol. Gallant gynnwys y canlynol (nid yw pob un o'r canlynol yn berthnasol i bob rhaglen a gwmpesir gan y Weithdrefn hon):

   - Gwiriadau Cofnodion Troseddol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig lle bo'n briodol;
   - Gwiriadau gorchmynion gwahardd gan yr Adran Addysg;
   - Anghenraid i fyfyrwyr ddatgan nad ydynt hwy, nac unrhyw un arall yn eu cartref, cyn belled ag y gwyddant, wedi cael eu diarddel rhag gofalu am blant;
   - Anghenraid i fyfyrwyr ddatgan unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddon, neu rybuddion terfynol nad ydynt wedi eu 'hamddiffyn' yn ôl diffiniad Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 Gorchymyn (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013);
   - Cyngor i ymgeiswyr ynghylch ystyriaethau perthnasol yn ymwneud â'u gallu i gwrdd â thrylwyredd a gofynion y proffesiwn perthnasol;
   - Contract myfyrwyr, sy'n cynnwys cyfeiriad at addasrwydd ac at y Weithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer;

- Cyngor i fyfyrwyr ynghylch safonau ymddygiad proffesiynol;
- Asesiadau parodrwydd ar gyfer lleoliadau;
- Gwybodaeth am ofynion cyrff proffesiynol o ran cymhwystra i gofrestru neu gymhwyso;
- Monitro presenoldeb a phrydlondeb;
- Sgrinio iechyd.

9. Dylid defnyddio'r weithdrefn hon mewn perthynas â'r amgylchiadau canlynol, ymysg eraill:

    - Pan geir honiadau o ymddygiad neu arferion nad ydynt yn gyson â safonau proffesiynol y rhoddir gwybod i Brifysgol Bangor amdanynt.
    - Pan geir honiadau o ymddygiad neu arferion sy’n torri rheolau/rheoliadau partner / lleoliad ymarfer.
    - Pan fo unrhyw bryder rhesymol y gall myfyriwr neu unigolyn fod yn anaddas ar gyfer y rhaglen astudio.
    - Pan fo pryder rhesymol y gall myfyriwr fod yn anaddas i’r proffesiynau y mae’r rhaglen astudio'n rhoi mynediad iddynt.
    - Pan nad yw myfyriwr yn llwyddo yn unrhyw asesiad perthnasol o’i barodrwydd ar gyfer lleoliad, pan fo hynny’n berthnasol i'w raglen astudio.
    - Pan fo myfyriwr yn torri unrhyw god ymarfer proffesiynol perthnasol neu safonau tebyg sy'n berthnasol.

10. Mae ymddygiad amhriodol o ran addasrwydd yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill:

    - Methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau darparwr y lleoliad neu'r asiantaeth letyol, gan gynnwys polisïau ar ddefnyddio e-bost, y rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol, dulliau storio digidol, offer cludadwy a ffonau symudol.
    - Methu â chydymffurfio ag egwyddorion a pholisïau cyfrinachedd.
    - Ffugio cofnodion, gan gynnwys rhoi cyfrif anonest o waith a wnaed, asesiadau cymhwysedd, taflenni amser neu wrth hawlio arian yn ôl.
    - Bwlio neu ddangos ymddygiad ymosodol, treisgar, gwahaniaethol, amhriodol, brawychus, neu aflonyddgar, gan gynnwys defnydd amhriodol o’r cyfryngau cymdeithasol.
    - Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol dro ar ôl tro sy'n effeithio ar ymddygiad a/neu hap-brofion.
    - Manteisio ar natur fregus plentyn, rhiant, unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwr, claf, neu unrhyw berson arall yng nghyd-destun lleoliad.
    - Sefydlu perthynas bersonol amhriodol gydag aelod staff, plentyn, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, claf, oedolyn mewn perygl neu unrhyw berson arall.
    - Ymwneud ag eraill sydd wedi ymddwyn yn amhriodol, neu gysylltu â hwy, fel rhestrir hynny yma, a lle nad oes digon o dystiolaeth i ddangos nad yw'r myfyriwr wedi ymddwyn yn y fath fodd.

- Methiant i wella ymddygiad sydd wedi bod yn destun i unrhyw gamau dan reoliadau, gweithdrefnau a chodau'r Brifysgol.
- Cyflawni tramgwydd troseddol, gan arwain at hysbysiad gan yr heddlu o arestio, rhybuddio, neu euogfarn, ac eithrio'r euogfarnau neu rybuddion gwarchodedig hynny nad ydynt yn destun datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Absenoldebau heb reswm, gweithio yn ystod cyfnodau o absenoldeb salwch a chofnod presenoldeb gwael.

11. Ni fydd y weithdrefn fel rheol yn cael ei defnyddio dan yr amgylchiadau canlynol er y gall fod rhesymau pam y gall y Weithdrefn hon redeg ochr yn ochr â'r prosesau a amlinellir isod mewn rhai amgylchiadau, a bryd hynny dylid gwneud hynny’n glir i'r myfyriwr:

    - Pan godir pryderon ynghylch addasrwydd yn ystod y broses ymgeisio, cyn i fyfyriwr gofrestru ar y rhaglen.  Mewn achosion o’r fath dylid defnyddio gweithdrefnau derbyniadau’r Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y Polisi a'r Cod Ymarfer ar gyfer Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr (Polisi Derbyniadau), polisïau perthnasol sy’n ymwneud ag euogfarnau troseddol, a'r holl weithdrefnau a bennir ar gyfer rhaglenni unigol.
    - Pan fo myfyriwr yn cyflawni camymddwyn academaidd naill ai dan amodau arholiad neu amodau eraill Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
    - Adroddiadau/cwynion blinderus neu faleisus, ac yn yr achos hwnnw gallai'r Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr fod yn briodol.
    - Pan fo pryderon ynghylch cynnydd academaidd myfyriwr. Mewn achosion o'r fath, tiwtor personol y myfyriwr hwnnw ddylai ymdrin â'r pryderon hynny, a'r Bwrdd Arholi, lle bo hynny'n briodol.
    - Pan fo myfyriwr, ar sail iechyd, yn achosi pryder sylweddol a/neu yn peri risg o niwed iddo ei hun neu eraill. Mewn achosion o’r fath, dylid defnyddio’r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio.
    - Pan nad yw myfyriwr yn gallu dilyn ei (h)astudiaethau am resymau personol sydd ddim yn gysylltiedig ag addasrwydd y myfyriwr i ymarfer. Mewn achosion o’r fath, dylid defnyddio gweithdrefnau’r Brifysgol i ystyried estyniadau i ddyddiadau cyflwyno gwaith neu ystyried gohirio astudiaethau am gyfnod.
    - Pan fo myfyriwr wedi datgelu pryderon yn y modd priodol, gan gynnwys drwy chwythu’r chwiban, ni ddylid ystyried hyn fel arfer yn achos o dorri cyfrinachedd oni bai bod y datgeliad ei hun yn cael ei wneud mewn modd amhriodol megis i berson, platfform neu gorff amhriodol.

12. Pan fo angen gwneud yn glir a ddylid ystyried achos penodol dan y weithdrefn hon neu dan weithdrefn neu broses arall; er enghraifft, pan allai’r ymddygiad hefyd fod wedi torri un neu ragor o reoliadau Prifysgol Bangor, megis y rhai pan fo angen dilyn gweithdrefnau disgyblu. Gellir gofyn am gyngor gan regulations@bangor.ac.uk, gan gynnwys canllawiau ynglŷn ag amseriad a threfn y camau i’w cymryd.  Rhaid ceisio cyngor hefyd gan y partner allanol perthnasol a chofnodi hynny.

13. Os oes unrhyw bryderon yn codi ar unrhyw adeg bod ymddygiad myfyriwr yn peryglu eraill neu’n cael effaith andwyol fel arall ar yr Ysgol, ar y lleoliad, ar bartneriaid allanol, neu ar Brifysgol Bangor, gellir tynnu’r myfyriwr o’r lleoliad yn syth, gydag awdurdod Pennaeth yr Ysgol, Prifathro, Cyfarwyddwr yr asiantaeth letyol, Arweinydd Proffesiynol, Cydlynydd Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer neu unrhyw un arall ag awdurdod, hyd nes y ceir canlyniad y gweithdrefnau a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Rhaid rhoi gwybod i Bennaeth yr Ysgol ac i’r Arweinydd Rhaglen (a all fod yn aelod o staff y Brifysgol neu'n aelod staff partner allanol yn dibynnu ar y rhaglen[1]) am unrhyw fyfyriwr sy'n cael ei dynnu o leoliad. Mae gan y myfyriwr hawl i wybod beth yw'r achos yn ei h/erbyn a chael cyfle teg i ateb yr achos hwnnw cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ynghylch ei h/addasrwydd i ymarfer, ond mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen tynnu'r myfyriwr o leoliad dros dro tra hyd nes y ceir canlyniad yr ymchwiliad.

## Datrysiad Cynnar/Anffurfiol

14. Y disgwyliad yw bod achosion o bryder am addasrwydd / ffitrwydd myfyriwr i ymarfer yn cael sylw yn y lle cyntaf, mor fuan â phosibl, trwy ba broses fewnol bynnag sy’n berthnasol i’r Rhaglen. Gall y Tiwtor Personol, yr Uwch Diwtor, yr Arweinydd Lleoliad, yr Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol neu unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb dynodedig, fynd i’r afael ag addasrwydd / ffitrwydd y myfyriwr i ymarfer.  Gall hyn ddigwydd mewn lleoliad anffurfiol, megis yn ystod neu ar ôl dosbarthiadau, yn ystod cyfarfodydd bugeiliol neu gyfarfodydd datblygu, yn ystod cyfarfodydd neu drafodaethau sydd wedi eu hamserlennu neu heb eu hamserlennu ac ati, ond rhaid ei gofnodi ar gofnod y myfyriwr.

    Mae'r cyfarfodydd/trafodaethau hyn yn wahanol i Ymchwiliad ar lefel Coleg/Ysgol, Cyfarfod Cam Un, a Phanel Cam Dau a hynny oherwydd:

    i. cânt eu cynnal mewn lleoliad anffurfiol ar lefel Rhaglen;
    ii. y bwriad yw ceisio datrys y pryderon yn ystod y cam hwn;
    iii. mae'n debygol y gellir rheoli'r materion a godwyd drwy'r broses arferol o gefnogi myfyrwyr yn eu hastudiaethau megis drwy ddefnyddio cynllun gweithredu.

Disgwylir i fyfyrwyr ymgysylltu'n llawn ym mhob cam o'r weithdrefn. Gall methu ag ymgysylltu’n ddigonol ar unrhyw gam, neu beidio â chyflawni amodau neu ofynion unrhyw gynllun gweithredu heb reswm da arwain at ymchwiliad ar lefel yr ysgol/coleg.

## Ymchwiliad ar lefel Rhaglen / Ysgol

15. Os na chaiff pryderon eu datrys yn ystod y cam Cynnar/Datrysiad Anffurfiol, yna gellir cynnal ymchwiliad i benderfynu a oes angen Cyfarfod Cam 1 i drafod Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer.

[1] **e.e.** pan fo'r polisi wedi'i ddechrau ar gyfer myfyriwr ar raglen gydag Arweinydd Statudol, rhaid mai'r Arweinydd Statudol yw’r Arweinydd Rhaglen a rhaid ymgynghori ag ef/hi ar bob mater sy'n effeithio ar addysg y myfyriwr.

16. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, bydd yr Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol neu Bennaeth yr Ysgol neu enwebai yn ymchwilio i'r pryderon gydag unrhyw bartïon mewnol neu allanol perthnasol er mwyn casglu gwybodaeth.

17. Cyn unrhyw gyfarfod ymchwilio gyda'r myfyriwr, rhaid i'r myfyriwr:

    a. Fod wedi cael ei hysbysu am yr honiadau sydd wedi arwain at yr ymchwiliad. Rhaid rhoi digon o fanylion am yr honiad i'r myfyriwr yn ysgrifenedig i'w alluogi i ymateb yn llawn.
    b. Fod wedi cael ei hysbysu bod ganddo/ganddi hawl i ddod â rhywun yn gwmni iddynt i'r Panel, er enghraifft, cyd-fyfyriwr, ffrind, aelod o staff, cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr neu o undeb proffesiynol. Dim ond os yw'r unigolyn sy'n dod yn gwmni i'r myfyriwr yn gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr neu o undeb proffesiynol y bydd ganddynt yr hawl i siarad ar ran y myfyriwr yng nghyfarfod y Panel.
    c. Fod wedi cael gwybod pwy fydd yn bresennol yn y cyfarfod ymchwilio ac a fydd y cyfarfod yn cael ei recordio;
    d. Fod wedi cael copi o'r Weithdrefn hon;
    e. Fod wedi derbyn copi o'r cod ymarfer/cyfarwyddyd rhaglen/gofynion proffesiynol penodol y mae'r mater(ion) penodol yn berthnasol iddynt;

18. Mewn achosion pan benderfynir bod yr honiad o natur gymhleth, sensitif neu gyfrinachol, neu pan fo pryderon ynghylch diogelwch a/neu lesiant y myfyriwr neu eraill, yna efallai na fydd yn briodol rhoi esboniad ysgrifenedig ar hyn o bryd. Mewn achosion eithriadol o'r fath, rhaid gwahodd y myfyriwr i gyfarfod rhagarweiniol byr gydag aelod priodol o staff a fydd yn amlinellu'r honiad ar lafar. Bydd hynny hefyd yn gyfle i'r myfyriwr ofyn unrhyw gwestiynau.

    i. Dylai amseriad y cyfarfod hwn gael ei lywio gan ddifrifoldeb yr honiadau ac anghenion y myfyriwr, a dylid ei gwneud yn bosibl i'r myfyriwr gael y cyfarfod hwn cyn gynted â phosibl ar ôl cael gwybod am yr ymchwiliad (e.e. yr un diwrnod).
    ii. Dim ond at ddibenion rhoi gwybodaeth y caiff y cyfarfod hwn ei gynnal ac ni ddylai fod yn rhan o'r ymchwiliad. Mae hyn yn golygu na ddylid gofyn i'r myfyriwr ymateb i'r honiadau yn ystod y cyfarfod hwn.
    iii. Yn y cyfarfod hwn dylid ailadrodd y pwyntiau allweddol a geir yn y gwahoddiad i'r cyfarfod ymchwilio a dylid atgoffa'r myfyriwr mai'r cyfarfod ymchwilio fydd eu cyfle i ymateb i'r honiad.
    iv. Dylai'r aelod staff yn y cyfarfod gynnal asesiad risg ar y myfyriwr ar ddiwedd y cyfarfod a chymryd unrhyw gamau yn ôl yr angen. Gallai hyn gynnwys cyfeirio at y Gwasanaeth Llesiant, at sefydliadau cefnogi eraill, a/neu ddweud wrth y myfyriwr na ddylai gysylltu â pherson/cleient/claf/lleoliad penodol ac ati, na chymryd unrhyw gamau eraill fel yr ystyrir yn briodol.

19. Gall canlyniad y cyfarfod ymchwilio arwain at un o'r canlynol:
    a. Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach a daw'r mater i ben yn fan hyn.
    b. Cytuno ar gynllun gweithredu gyda phob parti, a daw'r mater i ben yn fan hyn.

c. Atgyfeirio at Banel Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer Cam Un.

Disgwylir i fyfyrwyr ymgysylltu'n llawn ym mhob cam o'r weithdrefn. Gall methu ag ymgysylltu'n ddigonol ar unrhyw gam, neu fethu â chyflawni amodau neu ofynion unrhyw gynllun gweithredu heb reswm da arwain at uwchgyfeirio ar unwaith i gam nesaf y weithdrefn.

**Cyfarfod Cam Un: Ystyriaeth Ffurfiol ar lefel Coleg / Ysgol**

20. Os cyfeirir achos i Gam Un, bydd y rhai sydd â chyfrifoldeb dynodedig yn trefnu cyfarfodydd priodol i drafod y pryderon ymhellach. Dylai'r cyfarfodydd hyn fel rheol gynnwys Arweinydd y Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol a chynrychiolydd o'r bartneriaeth berthnasol, gallant hefyd gynnwys y Pennaeth Ysgol perthnasol neu enwebai. Dylid dewis Cadeirydd o blith y staff academaidd i arwain y cyfarfod a phenodi Ysgrifennydd a fydd yn cymryd cofnodion yn y cyfarfod.

21. Cyn y cyfarfod, gall yr Arweinydd Rhaglen / yr Arweinydd Proffesiynol / yr Arweinydd Statudol neu'r Pennaeth Ysgol neu'r enwebai a benodwyd i gyflwyno'r pryderon yn y cyfarfod gasglu gwybodaeth mewn modd priodol ac amserol, a rhaid i hynny gynnwys trafodaethau gyda'r partner allanol perthnasol a phenderfynu ar unrhyw dystion i'w gwahodd i'r cyfarfod yn ôl yr angen.

22. Cyn unrhyw gyfarfod o'r fath rhaid i'r myfyriwr:

- Fod wedi cael o leiaf bum diwrnod gwaith o rybudd am y cyfarfod. Gall y myfyriwr ddewis cyfarfod ynghynt os yw'n bosibl i'r staff wneud hynny.
  Fod wedi cael gwybod y gall ddod â chynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr neu o Undeb Proffesiynol perthnasol i'r cyfarfod ac y gall y cynrychiolydd hwnnw siarad ar ran y myfyriwr;
- Fod wedi cael gwybod y gall ddod â ffrind neu aelod o'r teulu nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â'r achos i'r cyfarfod i'w cefnogi. Ni fydd gan yr unigolyn hwn unrhyw hawl i siarad;
- Fod wedi cael gwybod pwy fydd yn bresennol yn y cyfarfod ac a fydd y cyfarfod yn cael ei recordio;
- Fod wedi derbyn tystiolaeth benodol am y pryderon ac unrhyw ohebiaeth flaenorol yn amlinellu'r pryderon hynny;
- Fod wedi derbyn copi o'r cod ymarfer/cyfarwyddyd rhaglen/gofynion proffesiynol penodol y mae'r mater(ion) penodol yn berthnasol iddynt;
- Fod wedi derbyn esboniad o sut yr ystyrir bod yr honiadau, os cânt eu cadarnhau, wedi torri'r adrannau unigol o'r canllawiau proffesiynol, y rheoliadau a'r codau ymarfer perthnasol.
- Fod wedi cael copi o'r Weithdrefn hon;
- Fod wedi cael gwahoddiad i gyflwyno datganiad ysgrifenedig yn ymwneud â'r pryderon.

23. Dyma swyddogaeth y cyfarfod:

- Cadarnhau ffeithiau'r achos.
- Penderfynu a yw'r honiadau wedi cael eu profi.
- Ystyried y codau ymarfer a'r canllawiau perthnasol, ac unrhyw bolisïau neu weithdrefnau penodol yn ymwneud â lleoliad ymarfer neu leoliad arall sy'n berthnasol i'r honiadau.
- Penderfynu ar y canlyniad i'r myfyriwr fel y diffinnir hynny gan baragraff 19.
- Paratoi adroddiad am y camau a gymerwyd.

24. Fel rheol, cynhelir y Panel fel a ganlyn:

a) Sesiwn Gaeedig, lle bydd y Cadeirydd yn egluro wrth yr aelodau beth yw eu swyddogaeth.
b) Bydd y cadeirydd yn gwahodd Cyflwynydd yr Achos, y myfyriwr, y cynrychiolydd, a'r tystion (pan fo'n berthnasol) i ymuno â'r cyfarfod.
c) Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Cyflwynydd yr Achos i gyflwyno'r achos.
d) Gwahoddir yr aelodau i ofyn cwestiynau i Gyflwynydd yr Achos.
e) Gwahoddir y myfyriwr neu ei gynrychiolydd i gyflwyno ymateb i'r honiadau.
f) Gwahoddir yr aelodau i ofyn cwestiynau i'r myfyriwr.
g) Gall cynrychiolydd y myfyriwr ateb ar ran y myfyriwr ar wahoddiad y myfyriwr.
h) Gall y myfyriwr a Chyflwynydd yr Achos ofyn cwestiynau i'w gilydd.
i) Gelwir tystion i ateb cwestiynau a ofynnir iddynt gan yr aelodau.
j) Bydd y myfyriwr, ei gynrychiolydd, Cyflwynydd yr Achos ac unrhyw dystion yn gadael yr ystafell.
k) Bydd yr aelodau'n trafod eu canfyddiadau.
l) Bydd y cyfarfod yn ceisio sicrhau bod Cyflwynydd yr Achos, y myfyriwr, a'r cynrychiolydd yn bresennol i glywed y canfyddiadau os yw'r amseroedd yn caniatáu.

**Rhaid i unrhyw gwestiynau a ofynnir i'r myfyriwr gan Gyflwynydd yr Achos, neu unrhyw gwestiynau a ofynnir i Gyflwynydd yr Achos neu i unrhyw dystion gan y myfyriwr, gael eu gofyn drwy'r Cadeirydd oni bai y cytunir fel arall gan y Cadeirydd.**

25. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir gohirio cyfarfod y Panel, fel arfer am ddim mwy na 10 diwrnod gwaith, er mwyn i dystiolaeth ychwanegol, fel y diffinnir hynny gan y Panel, gael ei darparu.

26. Rhaid i'r Panel ddewis un o'r canlyniadau canlynol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol:

Yn dilyn y drafodaeth gyda'r myfyriwr, bydd yr Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol / Pennaeth yr Ysgol neu enwebai, mewn ymgynghoriad â'r partner(iaid) allanol yn penderfynu fel a ganlyn:

i. Ystyrir nad oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd. NEU

ii. Pennir set o gamau i ddatrys y sefyllfa(oedd), a all gynnwys parhau â’r lleoliad neu drefnu lleoliad arall pan fo angen. Gall y lleoliad gynnwys monitro ffurfiol. NEU
iii. Dylid cynnig cyfle i'r myfyriwr newid rhaglenni i raglen heb leoliad os oes cyfle felly i'w gael. NEU
iv. Ni ellir datrys y sefyllfa a/neu mae digon o bryder i gyfeirio’r mater i Gam Dau y Weithdrefn hon, sy’n golygu y bydd y Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer yn ystyried y mater. NEU
v. Dylid gohirio er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater. Ni ddylid gohirio am fwy na 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny’n ymarferol bosibl.

Penderfynir a chytunir ar drefniadau i gyflawni'r canlyniad a nodir yn Adran 26 ar ddiwedd y cyfarfod ac fe'u cofnodir mewn adroddiad y dylid ei roi yng nghofnod y myfyriwr. Rhaid rhoi copi i'r myfyriwr hefyd. Yn achos 26(b) uchod, dylai'r adroddiad gynnwys manylion penodol ynglŷn â’r trefniadau y cytunwyd arnynt i fonitro ac adolygu cynnydd. Dylid pennu amserlen ar gyfer y trefniadau monitro, a dylid monitro yn rheolaidd yn unol â'r trefniadau hynny gan gofnodi’r canlyniadau. Rhaid hysbysu Pennaeth yr Ysgol o’r canlyniad.

27. Pan fo angen, gellir ailgynnull y cyfarfod ar unrhyw adeg yn ôl doethineb yr Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol / Pennaeth yr Ysgol neu gan bartner allanol.  Mae rhesymau dros ailgynnull yn cynnwys:

    i. Er mwyn adolygu llwyddiant neu fethiant y monitro ac adolygu'r trefniant ac i'w haddasu/cryfhau’n ffurfiol.
    ii. Er mwyn adolygu’r sefyllfa wedi i’r trefniadau ddod i ben.

28. Pan fydd monitro'n dangos wedyn nad oes gwelliannau digonol wedi digwydd, neu fod y digwyddiad yn destun pryder digonol neu yn ddigon difrifol ym marn yr Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol / Pennaeth yr Ysgol, ar ôl ymgynghori â'r partner allanol perthnasol, cyfeirir yr achos at Gam Dau y Weithdrefn hon.

**Panel Cam Dau: Cyfeirio Myfyriwr yn Ffurfiol at Banel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer Prifysgol Bangor**

29. Pan fydd pryderon yn parhau am y myfyriwr yn dilyn Cam 1, neu os yw'r digwyddiad yn destun pryder digonol neu yn ddigon difrifol, bydd yr Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol neu Bennaeth yr Ysgol yn gofyn i Swyddog Ysgol (“Cyflwynydd yr Achos” sydd fel rheol yn aelod o staff academaidd yn yr Ysgol berthnasol) gydlynu’r gwaith o gyfeirio'r achos at Banel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer Prifysgol Bangor.

30. Bydd Cyflwynydd yr Achos yn hysbysu'r myfyriwr bod pryderon ynghylch addasrwydd / ffitrwydd i ymarfer yn bodoli, neu'n parhau, ac y rhoddir gwybod am y pryderon hyn

i'w hystyried gan Banel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol. Dylid cyfeirio'r myfyriwr at ffynonellau cymorth bryd hynny, e.e. Undeb y Myfyrwyr.

31. Bydd Cyflwynydd yr Achos yn gwneud y canlynol:
    - Casglu tystiolaeth ynghyd i'w chyflwyno i'r Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer.
    - Nodi'r tystion a wahoddir i ddod i'r Panel.
    - Cadw mewn cyswllt â'r partner allanol / darparwr lleoliad os yn berthnasol.
    - Cadw mewn cyswllt â regulations@bangor.ac.uk a fydd yn cadarnhau pwy fydd Ysgrifennydd y Panel Cam 2.

32. Bydd Cyflwynydd yr Achos, gan adrodd i Bennaeth yr Ysgol (neu enwebai) yn paratoi adroddiad, gyda thystiolaeth ategol, i'w gyflwyno i'r Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer.

33. Rhaid i'r adroddiad gynnwys yr adrannau a ganlyn:
    a) Manylion am y pryderon a sut y maent yn berthnasol i'r Cod Ymarfer Proffesiynol perthnasol neu reoliadau tebyg.
    b) Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd blaenorol gyda'r myfyriwr os oeddent yn ymwneud â'r pryderon.
    c) Unrhyw sylwadau gan y myfyriwr neu ei Gynrychiolydd Undeb os cafwyd sylwadau eisoes.
    d) Y dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad. Dylai'r dystiolaeth fod wedi ei mynegeio a'i chroesgyfeirio.

34. Bydd Cyflwynydd yr Achos yn gwneud y canlynol:
    - Cyflwyno'r adroddiad a'r dystiolaeth i'r Ysgrifennydd, ar ôl eu golygu'n briodol er mwyn hepgor unrhyw wybodaeth na ddylid ei chynnwys.
    - Rhoi rhestr i'r Ysgrifennydd o unrhyw dystion i'w gwahodd i fynychu'r Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer a sicrhau eu bod yn cydsynio i gael eu cynnwys.
    - Enwi'r person (Cyflwynydd yr Achos fel rheol) a fydd yn cyflwyno'r honiadau yn erbyn y myfyriwr yn y Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer.

35. Dylid cyflwyno'r adroddiad, ar ôl ei olygu'n briodol i hepgor unrhyw wybodaeth na ddylid ei chynnwys, i regulations@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y penderfynwyd ar ganlyniad y Cyfarfod Cam 1.

### Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer ("Panel")

36. Ar ôl derbyn atgyfeiriad gan Gyflwynydd yr Achos, bydd yr Ysgrifennydd yn cynnull Panel.

37. Bydd yr Ysgrifennydd yn:

- Hysbysu'r myfyriwr bod pryderon ynghylch ei ymddygiad neu ei addasrwydd wedi cael eu cyfeirio at Banel. Dylid hysbysu'r myfyriwr hefyd bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r atgyfeiriad hwn wedi cael ei rhannu / y bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r atgyfeiriad hwn yn cael ei rhannu â darparwr y lleoliad a / neu'r corff proffesiynol.
- Rhoi copi o'r Weithdrefn hon i'r myfyriwr, ac yn atgoffa'r myfyriwr o'i hawl i gyflwyno datganiad i'r Panel (fel y disgrifir ym mharagraff 39).
- Rhoi gwybod i'r darparwr lleoliad a/neu'r corff proffesiynol os nad ydynt wedi cael gwybod cyn hyn.
- Lle bo'n berthnasol, hysbysu Cyflwynydd yr Achos bod angen gwaith pellach ar yr adroddiad os oes pethau wedi eu hepgor o'r dystiolaeth pan na ddylid bod wedi gwneud hynny, neu os nad yw'r adroddiad yn cyflawni'r gofynion a nodir yn y Weithdrefn hon.
- Trefnu cyfarfod o'r Panel. Fel arfer, dylid pennu dyddiad y Panel o fewn 1 mis calendr fan bellaf, lle bo'n ymarferol bosibl, ar ôl i'r achos gael ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd.
- Rhoi gwybod i'r myfyriwr am ddyddiad y Panel, gan sicrhau bod y myfyriwr yn cael o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd o'r dyddiad y bydd y Panel yn cyfarfod, pan fo hynny'n ymarferol bosibl, oni bai y gellir trefnu dyddiad cynharach mewn cytundeb gyda'r myfyriwr.
- Sicrhau didueddrwydd aelodau'r Panel.
- Darparu copi o'r Weithdrefn hon a'r safonau proffesiynol perthnasol i'r Panel, lle bo'n briodol.
- Gweithredu fel ysgrifennydd i'r Panel a llunio adroddiad y Panel i'w gymeradwyo gan Gadeirydd y Panel.

38. Dyma fydd aelodaeth y Panel Addasrwydd i Ymarfer:

- Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor, neu Bennaeth Ysgol o Goleg arall, sy'n aelod o'r Senedd.
- Aelod staff academaidd o'r Ysgol berthnasol, sydd â gwybodaeth am y cod ymarfer proffesiynol perthnasol. Ni ddylai'r aelod staff hwn fod wedi cael unrhyw ymdrin blaenorol â'r achos.
- O leiaf un neu ddim mwy na dau aelod allanol. Un maen prawf allweddol yw y bydd gan yr aelod(au) allanol wybodaeth awdurdodol o'r safonau proffesiynol perthnasol ac na fu ganddynt unrhyw gysylltiad blaenorol â'r myfyriwr. Fel rheol bydd yr aelod(au) allanol yn cael eu dewis o blith staff partner allanol perthnasol ond gellir eu dewis o brifysgol arall hefyd mewn amgylchiadau eithriadol.
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu Swyddog Sabothol neu aelod o staff a enwebwyd gan y Llywydd sydd â dealltwriaeth briodol o'r swyddogaeth.
- Ysgrifennydd i'r Panel.

**Rhaid i aelodau'r Panel fod yn ddiduedd ac ni allant fod ag unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos.**

39. Mae hawliau a chyfrifoldebau'r myfyriwr fel a ganlyn:

- Gall y myfyriwr ofyn i'r Ysgrifennydd, i’r Arweinydd Rhaglen / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Statudol, Tiwtor Personol, neu Diwtor Lleoliad am gyngor ar sut y caiff y Weithdrefn a'r Panel eu cynnal.
- Mae hawl gan y myfyriwr i gyflwyno datganiad i’r Panel ac i dynnu sylw’r Panel at unrhyw faterion sy’n berthnasol i'r achos, gan gynnwys datganiadau gwiriadwy gan dystion.
- Rhaid i'r myfyriwr sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu i'r Ysgrifennydd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel. Bydd gwybodaeth newydd a gyflwynir gan y myfyriwr yng nghyfarfod y Panel yn cael ei hystyried yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, fodd bynnag, os oes unrhyw wybodaeth newydd y bernir bod angen ymchwiliad ehangach i'w chadarnhau neu os yw’r panel o’r farn fod yn rhaid darparu hawl i ymateb, rhaid i hynny arwain at ohirio’r Panel.
- Fel rheol, bydd y myfyriwr yn cael gweld yr un dogfennau’n union ag aelodau’r Panel. Yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, gellir golygu'r dogfennau hyn i hepgor gwybodaeth na ddylid ei chynnwys er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol eraill.
- Mae gan y myfyriwr hawl i ddod ag un person gydag ef/gyda hi i’r Panel, er enghraifft, cyd-fyfyriwr, ffrind, aelod o staff, cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, undeb proffesiynol neu gynrychiolydd cyfreithiol. Bydd gan y sawl sy’n dod gyda’r myfyriwr hawl i siarad ar ran y myfyriwr yng nghyfarfod y Panel. Cyfrifoldeb y myfyriwr fydd sicrhau bod yr unigolyn hwn yn cael manylion llawn am leoliad, amser a dyddiad y Panel a’i fod yn cael copïau o’r holl ddogfennau perthnasol. Os na fydd y sawl sy’n dod gyda’r myfyriwr ar gael, ni fydd hynny ynddo’i hun yn rheswm dros ganslo cyfarfod y Panel os cytunwyd eisoes ar y dyddiad a dylai’r myfyriwr, os dymuna, gael hyd i rywun arall i ddod gydag ef/gyda hi. Ni ddylai aelod staff sydd â chysylltiadau mewn unrhyw ffordd â'r achos ddod gyda'r myfyriwr.
- Mae gan y myfyriwr hawl i alw tystion (fel y diffinnir hynny yn y Weithdrefn hon) ond rhaid iddo/iddi roi enwau a manylion cyswllt yr holl dystion i’r Ysgrifennydd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y Panel. Cyfrifoldeb y myfyriwr fydd sicrhau bod pob tyst sydd wedi eu henwi yn cael manylion am leoliad, amser a dyddiad y Panel a’u bod yn cael copïau o’r holl ddogfennau perthnasol. Os na fydd tystion penodedig y myfyriwr ar gael, ni fydd hynny ynddo’i hun yn rheswm dros ganslo cyfarfod y Panel os cytunwyd eisoes ar y dyddiad.
- Rhaid hysbysu'r Ysgrifennydd yn ysgrifenedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel (neu os cytunwyd ar ddyddiad cynharach, cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl) os yw'r myfyriwr yn bwriadu cael cynrychiolydd o sefydliad proffesiynol neu berson â chymwysterau cyfreithiol gydag ef/gyda hi yn y cyfarfod. Dylid nodi mai proses fewnol yw hon ac nid yw felly’n broses lle byddai'r Brifysgol fel rheol yn disgwyl i gynrychiolwyr cyfreithiol fod yn bresennol, ond mae'r Brifysgol yn barod i ganiatáu hyn cyn belled â bod y cyfnod rhybudd priodol wedi'i roi. Dylid darparu enw a statws proffesiynol yr unigolyn hwnnw. Mae gan y Brifysgol hawl i benodi eu cynrychiolydd cyfreithiol eu hunain mewn achosion lle bo hynny'n berthnasol.
- Mae gan y myfyriwr hawl i ofyn am gael gohirio cyfarfod y Panel lle ceir amgylchiadau lliniarol. Rhaid i’r myfyriwr wneud cais am ohiriad o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Panel. Gall amgylchiadau lliniarol o'r fath gynnwys

salwch personol difrifol, profedigaeth, ysgariad, gwahaniad, dadfeddiant, ac ati. Mewn achosion o'r fath, gellir gofyn am dystiolaeth or amgylchiadau lliniarol, megis tystysgrif meddyg (ni fydd nodyn meddygol hunanardystiedig yn dderbyniol fel arfer).
- Bydd y Brifysgol yn cadw gwybodaeth sy’n berthnasol i’r Panel yn unol â chyfnodau cadw deunyddiau cyhoeddedig.

40. Os nad oes amgylchiadau lliniarol, a chyda chydsyniad y Cadeirydd, gellir bwrw ymlaen i gynnal cyfarfod o’r Panel yn absenoldeb y myfyriwr os na fydd yn bresennol ar yr amser penodedig ac os nad yw wedi cysylltu â’r Ysgrifennydd i drefnu gohiriad o leiaf 3 diwrnod gwaith llawn cyn amser penodedig y cyfarfod o’r panel. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ellir gohirio cyfarfod Panel os nad yw’r myfyriwr yn gallu dangos tystiolaeth ddogfennol o amgylchiadau lliniarol sy’n eu rhwystro rhag bod yn bresennol. Mae gan Gadeirydd y Panel awdurdod i benderfynu a yw'r amgylchiadau lliniarol a gyflwynir gan fyfyriwr yn ddigonol i warantu gohirio cyfarfod y Panel ai peidio. Ni ddylid gohirio cyfarfod Panel fwy nag unwaith heb reswm sylweddol.

41. Dyma fydd swyddogaeth y Panel:

- Cadarnhau ffeithiau’r achos.
- Penderfynu a yw’r honiadau wedi cael eu profi.
- Ystyried y codau ymarfer a’r canllawiau perthnasol, ac unrhyw bolisïau neu weithdrefnau penodol yn ymwneud â lleoliad ymarfer neu leoliad arall sy’n berthnasol i’r honiadau.
- Penderfynu beth yw’r canlyniad i’r myfyriwr fel y diffinnir hynny gan baragraff 44.
- Paratoi adroddiad am y camau a gymerwyd.

42. Fel rheol, cynhelir y Panel fel a ganlyn:

a) Sesiwn Gaeedig i aelodau'r Panel, lle bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Panel o swyddogaeth y Panel.
b) Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Cyflwynydd yr Achos, y myfyriwr, y cynrychiolydd, a’r tystion (pan fo’n berthnasol) i ymuno â chyfarfod y Panel.
c) Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Cyflwynydd yr Achos i gyflwyno'r achos.
d) Gwahoddir aelodau’r Panel i ofyn cwestiynau i Gyflwynydd yr Achos.
e) Gwahoddir y myfyriwr neu ei gynrychiolydd i gyflwyno ymateb i’r honiadau.
f) Gwahoddir aelodau’r Panel i ofyn cwestiynau i’r myfyriwr.
g) Gall cynrychiolydd y myfyriwr ateb ar ran y myfyriwr ar wahoddiad y myfyriwr.
h) Gall y myfyriwr a Chyflwynydd yr Achos ofyn cwestiynau i'w gilydd.
i) Gofynnir i’r tystion ymateb i’r cwestiynau a ofynnir iddynt gan y Panel.
j) Bydd y myfyriwr, ei gynrychiolydd, Cyflwynydd yr Achos ac unrhyw dystion yn gadael yr ystafell.
k) Bydd y Panel yn ystyried y canfyddiadau.
l) Bydd y Panel yn ceisio sicrhau bod Cyflwynydd yr Achos, y myfyriwr, a'r cynrychiolydd yn bresennol i wrando ar ganfyddiadau'r Panel os yw amser yn caniatáu.

**Rhaid i unrhyw gwestiynau a ofynnir i’r myfyriwr gan Gyflwynydd yr Achos, neu unrhyw gwestiynau a ofynnir i Gyflwynydd yr Achos neu i unrhyw dystion gan y myfyriwr, gael eu gofyn drwy’r Cadeirydd oni bai y cytunir fel arall gan y Cadeirydd.**

43. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir gohirio cyfarfod y Panel, fel arfer am ddim mwy na 10 diwrnod gwaith, er mwyn i dystiolaeth ychwanegol, fel y diffinnir hynny gan y Panel, gael ei darparu.

44. Rhaid i'r Panel ddewis un o'r canlyniadau canlynol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol:

a) Parhau ag astudiaethau a / neu â lleoliad yn ddiamod.
b) Parhau ag astudiaethau a / neu â lleoliad gydag amodau. Gall hyn gynnwys amodau proffesiynol neu academaidd ychwanegol, er enghraifft, lleoliad arall, goruchwyliaeth arbennig neu raglen weithredu a argymhellir lle bo'n briodol. Gall hyn hefyd gynnwys darparu hyfforddiant, cefnogaeth fugeiliol neu lesiannol ychwanegol.
c) Gohirio astudiaethau ar y rhaglen a / neu gohirio’r lleoliad hyd nes bydd y myfyriwr yn gallu parhau heb bryderon ynghylch ei Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer. Mae'r Panel yn cadw'r hawl i bennu sut y dylid darparu tystiolaeth o Addasrwydd / Ffitrwydd o'r fath.
d) Terfynu astudiaethau a lleoliad ar y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi cofrestru arni, gydag opsiwn i gynnig cymhwyster ymadael nad yw’n gymhwyster proffesiynol neu gynnig rhaglen arall ar sail theori heb elfen ymarfer os oes un ar gael.
e) Terfynu astudiaethau a lleoliad ar y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi cofrestru arni, a gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes (neu enwebai) bod y myfyriwr yn anghymwys i gofrestru ar unrhyw raglen arall yn y Brifysgol am gyfnod penodol neu amhenodol. Bydd y ffaith hon yn cael ei chofnodi ar gofnod y myfyriwr ac yn cael ei chynnwys mewn unrhyw eirda neu drawsgrifiad a ddarperir gan Brifysgol Bangor i sefydliadau eraill.

Os dewisir canlyniad 44(b) neu 44(c), rhaid i adroddiad y Panel gynnwys manylion penodol o’r trefniadau y cytunir arnynt i fonitro ac adolygu cynnydd. Pennir amserlen ar gyfer y trefniadau monitro. Dylid monitro’n rheolaidd yn unol â’r trefniadau hynny a dylid ei gofnodi.

Ar gyfer pob canlyniad (a phob amod cysylltiedig) sy'n cynnwys dychwelyd i leoliad neu leoliad tebyg, mae canlyniadau o'r fath yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gytundeb gan y Darparwr Lleoliad / Awdurdod Lletyol sydd â'r awdurdod cyffredinol i ganiatáu neu wrthod gadael i’r myfyriwr barhau gyda nhw ar leoliad. Gall y panel fynnu bod myfyriwr yn ymgymryd ag adolygiad pellach o unrhyw god ymarfer proffesiynol perthnasol neu debyg.

45. Bydd yr Ysgrifennydd yn cadarnhau penderfyniad y Panel ac unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r penderfyniad gyda'r myfyriwr, Cyflwynydd yr Achos a Phennaeth yr Ysgol

yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i gyfarfod y Panel, lle bo'n ymarferol bosibl. Rhoddir manylion y weithdrefn apelio i'r myfyriwr.

Rhaid i'r ysgol hysbysu rhanddeiliaid perthnasol, megis darparwr y lleoliad, y corff proffesiynol, a'r Arweinydd Rhaglen, am benderfyniad y Panel, ac unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r penderfyniad.

Os yw'n berthnasol, bydd yr Ysgrifennydd yn goruchwylio unrhyw argymhelliad i gyflwyno gwybodaeth i awdurdodau allanol, megis i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ran Prifysgol Bangor a all godi o Gam Dau'r weithdrefn hon.

**Y Weithdrefn Apelio**

46. Dylid cyflwyno apeliadau gan y myfyriwr yn erbyn penderfyniad y Panel yn ysgrifenedig i apeliadau@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Panel.

47. Ystyrir apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer ar y seiliau canlynol yn unig:

    i. Diffygion neu afreoleidd-dra yn y ffordd y cynhaliwyd y Panel, lle gallai'r cyfryw ddiffygion, afreoleidd-dra neu gyngor fod wedi effeithio ar benderfyniad y Panel.
    ii. Bodolaeth amgylchiadau personol eithriadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y panel. Rhaid i'r apelydd egluro pam na chafodd y Panel wybod am yr amgylchiadau personol hyn cyn ei gyfarfod. Lle byddai wedi bod yn bosibl i fyfyriwr roi gwybod i'r Panel am amgylchiadau eithriadol cyn ei gyfarfod, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn roi'r rhesymau hyn fel sail dros apelio.
    iii. Bod y penderfyniad yn afresymol ac na ellid ei gynnal gan ffeithiau'r achos.
    iv. Bod tystiolaeth berthnasol newydd, nad oedd yn hysbys i'r Panel wrth wneud ei benderfyniad, wedi dod i'r amlwg, lle gall y myfyriwr ddangos rheswm da pam na allai fod wedi darparu'r dystiolaeth yng nghyfarfod y Panel.

Bydd yr apêl yn cael ei chyflwyno i'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai.

48. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor (neu enwebai) yn ymchwilio i'r pryderon er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol a llawn cyn dyfarnu ynghylch yr apêl. Gall hyn gynnwys trafodaethau â phartneriaid allanol perthnasol. Rhoddir penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor fel rheol o fewn 10 diwrnod gwaith, pan fo hynny'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y derbynnir apêl. Os oes disgwyl i'r cyfnod hwn fod yn hirach, bydd y myfyriwr yn cael gwybod cyn gynted â phosibl ac yn derbyn dyddiad diwygiedig ar gyfer canlyniad.

49. Gall y Dirprwy Is-ganghellor ddod i un o'r casgliadau canlynol:

- Penderfynu peidio â chadarnhau'r apêl. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor yn dweud wrth y Gofrestrfa: Ansawdd a Safonau i roi gwybod i'r apelydd nad yw'r apêl wedi ei chadarnhau a bod gweithdrefnau'r Brifysgol wedi dod i ben. Anfonir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyriwr bryd hynny.
- Cadarnhau'r apêl. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor yn dweud wrth y Gofrestrfa: Ansawdd a Safonau i drefnu Panel, gydag aelodau gwahanol i'r Panel gwreiddiol, i ystyried yr achos. Yn y cyfarwyddiadau, bydd y Dirprwy Is-ganghellor yn nodi'r rhesymau pan y cadarnhawyd yr apêl.

50. Unwaith y bydd y Weithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer wedi'i chwblhau, gall myfyriwr gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA). Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn rhedeg cynllun annibynnol i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os yw myfyriwr yn anfodlon â'r canlyniad a gawsant gan Brifysgol Bangor, efallai y gallant ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu eu hachos. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gall y swyddfa honno edrych arno a'r hyn na all edrych arno, a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau yma: https://www.oiahe.org.uk/students. Fel rheol rhaid i fyfyrwyr fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' at y myfyriwr wrth gyrraedd diwedd y prosesau hyn a bod dim camau pellach y gellir eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff y gŵyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'n awtomatig. Hyd yn oed os caiff cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol gallant ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunant. Gall myfyrwyr ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallant ddisgwyl derbyn llythyr o'r fath yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.
    I ddod â chŵyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, mae angen i fyfyrwyr lenwi a chyflwyno Ffurflen Gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol cyn pen 12 mis i ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd angen iddynt anfon copi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

**Terfynu Camau**

51. Ni fydd terfynu unrhyw gamau gan Brifysgol Bangor yn erbyn myfyriwr, neu gyn-fyfyriwr, yn effeithio ar gamau sydd eisoes ar y gweill gan unrhyw gorff proffesiynol neu Asiantaeth Bartner, a all barhau â'u hymchwiliadau a'u camau eu hunain.

52. Efallai y bydd angen i'r Brifysgol, dan yr amgylchiadau hynny, ddarparu gwybodaeth i'r ymchwiliadau hynny mewn perthynas â'i hachosion Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer.